# CEFNOGAETH SGILIAU ASTUDIO ARBENIGOL UN-I-UN

Ar gyfer myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol.

**Darperir y gefnogaeth drwy'r flwyddyn, gan diwtoriaid cymwys a chofrestredig sy'n rhan o'r Tîm Dyslecsia mewnol yn y Gwasanaethau Anabledd ym Mhrifysgol Bangor.**

Bydd staff croesawus yno bob tro byddwch yn ymweld â'n Derbynfa.





Ystafelloedd unigol un-i-un penodol sy'n darparu lle cyfforddus a chyfrinachol.  Mae gan bob ystafell ddwy sgrin gyfrifiadurol, gliniadur (*laptop*) a mynediad at dechnoleg gynorthwyol, digon o le ar ddesg, golau y gellir ei newid er mwyn gwneud yr ystafell yn oleuach neu'n dywyllach, amrywiaeth o gymhorthion dysgu aml-synhwyraidd, bwrdd gwyn, ac mae dŵr yfed wedi'i hidlo ar gael gerllaw.

Ystafell aros gyfforddus lle gall myfyrwyr eistedd ar ôl cyrraedd, ac edrych drwy amrywiaeth o daflenni gwaith strategaethau astudio ac adnoddau eraill sy'n cael eu harddangos.  Mae'r adnoddau hyn ar gael i fyfyrwyr fynd â nhw gyda nhw fel bo'r angen.





Mae gan diwtoriaid sgiliau i gefnogi myfyrwyr i ymgorffori'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn ystod eu hastudiaethau.

Yn y llun hwn, mae Dylan yn dangos sut i ddefnyddio'r Pen LiveScribe.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# CEFNOGAETH SGILIAU ASTUDIO ARBENIGOL UN-I-UN

Ar gyfer myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol.

## Croeso i'r Tîm Dyslecsia - sy'n cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr sydd â Gwahaniaethau Dysgu Penodol, megis Dyslecsia, Dyspracsia, Dyscalcwlia ac ADHD.

Mae cefnogaeth sgiliau astudio arbenigol yn cynnig cyfle i chi weithio un-i-un gyda thiwtor sgiliau astudio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i astudio'n effeithiol.

- Mae gennym diwtoriaid sgiliau astudio arbenigol sy'n arbenigo mewn cynnig cefnogaeth gyda mathemateg, ystadegau a chyda'r Gymraeg.

- Gall eich tiwtor sgiliau astudio eich helpu i werthuso eich cryfderau a'ch dulliau astudio presennol a'ch cefnogi mewn meysydd a all fod yn fwy o her i chi. Byddant yn cyflwyno amrywiaeth o strategaethau i chi i wella eich dysgu, megis:



  - **Sgiliau Rheoli Amser a Threfnu.**
  - **Rhifedd.**
  - **Sgiliau Darllen Academaidd ac Ymchwil.**
  - **Sgiliau ysgrifennu.**
  - **Sgiliau cyflwyno.**
  - **Strategaethau adolygu.**

Gellwch fynd at ein gwefan i gael rhagor o fanylion am gefnogaeth astudio yn: http://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/dyslexia.php.cy

Tachwedd 2017